

ARWEINYDD MAES TRAWSGWRICWLAIDD :LLYTHRENNEDD

School:	Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern	Posted:	24th January 2020
Location:	Caerdydd, Cardiff	Expires:	4th February 2020 12:05 PM
Contract Term:	Permanent	Start Date:	1st September 2020
Salary:	MPS/UPS	Job ID:	1086382
Hours:	Full Time	Job Reference:	ED50253037



Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern

YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO EDERN

HEOL LLANEDEYRN

PENYLAN

CAERDYDD

CF23 9DT

Cyf: ED50253037

ARWEINYDD MAES TRAWSGWRICWLAIDD: LLYTHRENNEDD

GRADDFA CYFLOG: Prif/Uwch Raddfa a CAD 2a (£2848)

CYNIGIR LWFANS RECRIWTIO A CHADW O £2000yf I YMGEISYDD EITHRADOL GYDA'R SWYDD HON

DYDDIAD DECHRAU: MEDI 2020

Sefydlwyd Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern yn 2012 i gwrdd â'r gofyn ychwanegol am addysg Gymraeg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Mae'n gwasnaethu dwyrain y ddinas a symudodd i'w safle parhaol fis Medi 2013. Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern yn ysgol gymunedol i fechgyn a merched 11-18 oed a'r bwriad yw y bydd tua 1100 o ddisgyblion ynndi erbyn iddi gyrraedd ei llawn dwf. Ym Medi 2019 mae dros 800 o ddisgyblion yn yr ysgol.

Yn adroddiad arolwg Estyn o'r ysgol fe'i disgrifiwyd fel 'cymuned glòs iawn gydag ethos hynod ofalgar a chefnogol.' Nodwyd hefyd fod 'disgyblion yn ymddwyn yn arbennig o dda ac yn dangos lefelau uchel iawn o barch a gofal' a bod yr ysgol yn creu 'diwylliant ac ethos o'r 'ysgol sy'n dysgu' sydd yn annog a chefnogi datblygiad proffesiynol staff ar bob lefel.' Dyfarnwyd fod lles ac agweddau at ddysgu, ynghyd ag addysgu a phrofiadau dysgu yn rhagorol yn yr ysgol.

Chwiliwn am unigolyn brwd ac ymroddgar i ymuno ag adran flaengar a llwyddiannus. Bydd cyfle i ymgeisydd addas addysgu hyd at gyfnod allweddol 5. Yn ogystal bydd cyfrifoldeb arwain ynghlwm â'r swydd hon, a rydd y cyfle i ddeiliad y swydd ddatblygu gweithdrefnau llythrennedd llwyddiannus yr ysgol ymhellach.

Rhaid i'r ymgeiswyr:

- feddu ar sgiliau addysgu effeithiol ac ysgogol
- meddu ar sgiliau cyfathrebu ardderchog yn y Gymraeg a'r Saesneg
- meddu ar sgiliau TGCh rhagorol
- bod yn ymrwymedig i ddatblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu lwyddiannus er budd pob disgybl, gyda'r pwyslais ar ragoriaeth a chynhwysiant
- dangos ymroddiad i gefnogi datblygiad ieithyddol a diwyllianol disgyblion drwy weithgareddau allgyrsiol
- bod yn ymrwymedig i sefydlu ethos cadarnhaol wedi ei wreiddio yn y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg
- meddu ar yr hyblygrwydd angenrheidiol i ymgymryd â gwahanol ddyletswyddau mewn ysgol sy'n datblygu.

Mae'r swydd hon yn amodol ar Wiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r swydd wag hon yn addas i'w rhannu.

Am sgwrs anffurfiol am y swydd, neu am wybodaeth ychwanegol am yr ysgol, cysylltwch â'r Pennaeth, Iwan Pritchard, ar ffon neu e-bost .

Dylid dychwelyd ffurflenni cais a gwblhawyd naill ai ar yr e-bost neu drwy'r post at sylw: Mr Iwan Pritchard, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, Heol Llanedeyrn, Penylan, Caerdydd, CF23 9DT erbyn 12:00pm ddydd Mawrth, Chwefror 4 2020.

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw rhoi cymorth i blant ac oedolion sy'n agored i niwed gan sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Mae ein gwasanaethau a'n hysgolion wedi ymrwmo i sicrhau diogelwch pob plentyn ac oedolyn sy'n agored i niwed, a byddant yn gweithredu i ddiogelu eu lles. Maent yn cydnabod bod gan blant ac oedolion sy'n agored i niwed yr hawl i gael eu hamddiffyn. Cefnogir hyn

yn ethos cyffredinol y Cyngor a'r holl ysgolion.

Fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Felly, er nad yw'n ofyniad ar gyfer gwneud cais, rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan unigolion nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, gan gynnwys:

- y rhai sy'n 25 oed ac iau;
- y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- y rhai o'n cymunedau lleol, yn benodol unigolion anabl, gofawyr a'r rhai o gymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleihafrioedd Ethnig a LGBT+ Caerdydd;
- y rhai sy'n gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg.

Safeguarding Statement:

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern is committed to safeguarding and promoting the welfare of children, young people and vulnerable adults and expects all staff and volunteers to share this commitment. We particularly welcome applications from under represented groups including ethnicity, gender, transgender, age, disability, sexual orientation or religion.